# CYNGOR

## COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 23AIN IONAWR 2018 AM 5.00 PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J.Bevan - Maer
Y Cynghorydd M.Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, M. James, V. James, L. Jeremiah, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whitin

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol), R.M. Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol a Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), D. Marr (Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Caerdydd), T. Stephens (Rheolwr Rheoli Datblygu), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. TREFNIADAU FFILMIO GWE-GAMERA A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy godi dwylo.

### 2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Collis, Ms E. Forehead, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, G. Johnston, Mrs A. Leonard, J. Ridgewell, J. Simmonds a J. Taylor.

## 3. CYFLWYNIAD GAN Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO

Croesawodd y Maer Mrs Christina Harrhy i'w chyfarfod Cyngor cyntaf yn ei swydd fel Prif Weithredwr Dros Dro newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fe wnaeth Mrs Harrhy ddiolch i'r Cyngor a thalu teyrnged am waith ei rhagflaenydd, Mr Chris Burns. Wrth gyfeirio at yr heriau diweddar a wynebwyd gan y Cyngor, canmolodd ymrwymiad staff yn ystod yr amser anodd hwn a siaradodd am ei bwriad i fwrw ymlaen â'r uchelgais a'r blaenoriaethau a osodwyd gan yr Arweinydd er mwyn sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer symud y sefydliad ymlaen i gyflawni rhagoriaeth.

Eglurodd y Prif Weithredwr Dros Dro mai ei blaenoriaeth gyntaf fyddai sefydlu uwch strwythur rheoli diwygiedig i gyflwyno'r agenda newydd, a rhoddir diweddariad i'r Aelodau yn fuan, a bod y gwaith hwn eisoes wedi dechrau gyda phenodiad diweddar Mr Mark S. Williams fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro. Amlinellodd Mrs Harrhy ei blaenoriaethau hefyd ar gyfer y misoedd i ddod, gan gynnwys gweithio i rannu amcanion i sefydlu cyfeiriad teithio cyffredinol, dilyniant y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau penodol mewn perthynas â chyrhaeddiad addysgol a'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan fodloni Safon Tai Ansawdd Cymru erbyn 2020 a rheoli'r galw cynyddol ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol.

Wrth gloi, soniodd y Prif Weithredwr Dros Dro am ei hymrwymiad i'r rôl a chroesawodd y cyfle i weithio gydag Aelodau etholedig wrth symud ymlaen. Fe wnaeth y Cyngor longyfarch Mrs Harrhy a Mr Williams am eu penodiadau diweddar.

## 4. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref sirol ers y cyfarfod diwethaf a diolchodd i'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd M. Adams, am fynychu'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn ar ei ran yn ystod cyfnod gwella. Diolchodd i'r Aelodau a fynychodd ei Wasanaeth Carolau Nadolig a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun Rhymni a thalodd deyrnged i dalent y disgyblion o ysgolion cyfrannog.

## 5. CYFLWYNO GWOBRAU

**Gwobr Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus - Perfformiwr sydd wedi Gwella Fwyaf**

Hysbyswyd yr aelodau bod adran Glanhau Adeiladau'r Cyngor yn ddiweddar wedi ennill gwobr 'Perfformiwr sydd wedi Gwella Fwyaf mewn Gwasanaeth Glanhau Adeiladau' yng Ngwobrau Rhwydwaith Perfformiad Gwobr Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus 2017. Mae'r wobr hon yn cydnabod y gwelliannau sylweddol a weithredwydwyd gan y tîm, sy'n cynnwys meysydd fel ansawdd, perfformiad, cost, hyrwyddo rhagoriaeth ac ymrwymiad i ddarpariaeth gwasanaethau rheng flaen.

Daeth Viv Jones, Kirsty Thomas, Sian Phelps, Nicola Jenkins, Rhian Evans a Julie Howe o'r Tîm Glanhau Adeiladau ymlaen i dderbyn gwobr oddi wrth y Maer a derbyn llongyfarchiadau gan y Cyngor am eu cyflawniad.

## 6. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## 7. CYNGOR – 21AIN TACHWEDD 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2017 (cofnodion rhif. 1-20).

## 8. CYNGOR ARBENNIG – 5ED RHAGFYR 2017

**Cofnod Rhif 5 – Dynodi Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro**

Wrth gyfeirio at y drafodaeth a gofnodwyd am ôl-lenwi swyddi perthnasol o fewn y Swyddfa Weithredol, rhoddodd yr Arweinydd y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â phenodiadau. Eglurodd fod yr Awdurdod bellach mewn sefyllfa i ystyried penodi Dirprwy Brif Weithredwr parhaol a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro a chadarnhaodd y bydd manylion y cynigion mewn perthynas â'r rhain a phenodiad uwch swyddi eraill yn cael eu cylchu i Aelodau'n fuan, gyda'r bwriad y bydd y cynigion yn cynnig strwythur a sefydlogrwydd wrth symud ymlaen.

Gofynnwyd am eglurhad am yr amserlenni, hysbysebion a phrosesau cyfweld ar gyfer penodi i'r swyddi hyn ac a fyddai'r cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor am ystyriaeth. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bwriedir cychwyn gweithredu'r strwythur newydd cyn gynted ag y bo modd a chadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai ei hadroddiad i'r Aelodau yn amlinellu'r rhesymeg yn erbyn pob un o'r swyddi ac a fydd y rhain yn cael eu hysbysebu a'u penodi yn fewnol neu'n allanol.

Yn dilyn trafodaeth ar yr uchod

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr 2017 (cofnodion rhif. 1-5).

## 9. CABINET 15FED TACHWEDD 2017 - EITEM BRYS – DDIM YN AMODOL AR ALW I MEWN – PARCIO NADOLIG AM DDIM AR GYFER TREF CAERFFILI

Nododd yr Aelodau argymhellion yr adroddiad a'r penderfyniad a gymerwyd gan y Cabinet ar 15fed Tachwedd 2017 i gymeradwyo cyflwyno cyfnod parcio am ddim o 2 awr ar draws holl feysydd parcio talu ac arddangos tref Caerffili am bythefnos yn y cyfnod cyn Nadolig 2017. Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud fel mater o frys oherwydd yr amgylchiadau unigryw a oedd o ganlyniad i'r gweithfeydd gwella'r priffyrdd ar gylchfan Pwll-y-pant.

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 10. SIARTER AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU CLLLC

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gafodd ei arnodi gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 23ain Tachwedd 2017. Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth i gadarnhau ymrwymiad y Cyngor i Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili oedd y cyntaf yng Nghymru i dderbyn dyfarniad Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau Lleol Cymru yn 2007, sydd wedi ei adnewyddu'n llwyddiannus ddwywaith yn 2011 a 2014. Nod Siarter Lleol Cymru yw datblygu, adnabod a rhannu arferion da wrth gefnogi a datblygu Aelodau etholedig, ac mae'n ddatganiad cyhoeddus

a meincnod safon ansawdd ar gyfer cyflwyno cefnogaeth a datblygiad effeithiol i Aelodau.

Roedd yr Aelodau'n falch o gydnabod cyflawniad parhaol y Cyngor wrth gwrdd â gofynion y Siarter fel y'i hatodwyd i'r adroddiad a mynegodd yr angen i’r arfer da sy'n cael ei wneud yn yr ardal hon barhau.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad, bod ymrwymiad i Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei ail-gadarnhau.

## 11. GWEITHDREFN YMGYNGHORI CYNLLUNIO AR GYFER CEISIADAU SY'N CYNNWYS MASTIAU TELATHREBU

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad, a gafodd ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd ar 12fed Rhagfyr 2017. Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cyngor ar gynnig i ddiwygio gweithdrefn gyfredol yr awdurdod cynllunio lleol o ran masiau telathrebu.

Nodwyd bod y Cyngor wedi penderfynu yn 2005 i fabwysiadu gweithdrefn ymgynghori lle dylai unrhyw gais am ganiatâd cynllunio, neu hysbysiad am fastiau telathrebu, fod yn amodol ar broses ymgynghori cyhoeddus gyda'r holl sefydliadau addysg leol o fewn 300m a phob datblygiad preswyl o fewn 250m i'r safle arfaethedig. O ystyried y costau gweinyddu sylweddol sy'n gysylltiedig â'r ymarferion ymgynghori hyn o'u cymharu â chyfradd ymateb isel iawn a ffioedd cais statudol statudol isel, cynigiwyd bod y gofyniad yn cael ei leihau fel bod mastiau telathrebu yn destun gweithdrefnau ymgynghori tebyg i ddatblygiadau eraill.Byddai hyn yn golygu mai dim ond eiddo cyfagos a fyddai’n derbyn llythyr ymgynghorol ond byddai hysbysiad safle yn cael ei bostio ymhob achos a byddai'r angen i ymgynghori gydag ysgolion lleol yn cael ei gadw.

Cyfeiriwyd y Cyngor at ganllawiau'r diwydiant sy'n gysylltiedig â mastiau telathrebu a dywedodd y byddai cydymffurfiad y datblygwr â'r rhain yn bodloni'r gofynion o safbwynt cynllunio.Gofynnodd Aelod a fyddai'r ardal o amgylch mastiau telathrebu yn amodol i ganllawiau cynllunio atodol ac eglurodd y Swyddog, er nad oes angen ymgynghori penodol ar y mater hwn, rhaid i bob cais o'r fath gynnwys tystysgrif cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiynydd Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw’n Ïoneiddio, sy'n cael eu hystyried yn sicrwydd digonol bod mastiau o'r fath yn dderbyniol o safbwynt iechyd y cyhoedd.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad, bod lefel yr ymgynghoriad cynllunio ar gyfer ceisiadau sy'n cynnwys mastiau telathrebu yn cael eu lleihau i'r hyn sy'n gysylltiedig â cheisiadau a hysbysiadau eraill, yn amodol ar weithdrefn ddiwygiedig i gynnwys hysbysiad safle ym mhob achos ac ymgynghori â phob sefydliad addysg lleol o fewn 300m.

## 12. CYNLLUN GOSTWNG TRETH Y CYNGOR 2018/19

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor o’r Cynllun Lleihau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Argymhellodd yr adroddiad i barhau i weithredu Cynllun Lleihau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 ar yr un sail â’r cynllun a ddefnyddiwyd yn 2017/18.

Gan nad yw rheoliadau 2018 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol i hawlwyr, cynigiwyd

bod y Cyngor yn parhau â'i gynllun lleol yn unol â'r rheoliadau a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19, yn effeithiol o 1af Ebrill 2018, ac mae'n parhau i ymarfer y disgresiwn lleol a gytunwyd yn flaenorol fel y'i darparwyd o fewn Rhan 5 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig fel y'u nodir yn yr adroddiad.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, y dylai Cynllun Lleihau Treth y Cyngor barhau am y flwyddyn ariannol 2018/19, ynghyd â'r disgresiwn lleol a gytunwyd yn flaenorol.

**13. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(2)**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cwestiwn canlynol o dan Reol y Weithdrefn 10(2). Yn unol â'r diwygiadau i'r cyfansoddiad, rhoddir yr ateb hefyd.

**FFORWM ARDAL ADFYWIO - I'R AELOD CABINET AR GYFER CARTREFI A LLEOEDD GAN Y CYNGHORYDD K. ETHERIDGE**

I ofyn i Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd faint o arian a gafodd ei ddyrannu i'r Fforwm Ardal Adfywio ers Mawrth 2017 -2018 a

1. Dyrannu i bob Ward
2. Sut cafodd yr arian ei wario, a pha feini prawf a ddefnyddiwyd a gall prosiectau gael eu diffinio
3. All Aelodau Ward gynnig am brosiectau sy'n buddio eu wardiau a thrigolion
4. A yw'r weithdrefn a'r cyllid yn cael eu cytuno ar ôl trafodaeth gyda Phwyllgorau Rheoli Canol Trefi lle mae un yn bodoli, ac a oes unrhyw drafodaeth gyda Chynghorau Trefi
5. Beth sy'n digwydd mewn Wardiau pan na fydd pwynt 4 yn gymwys
6. Diffinio unrhyw danwariant ar gyfer y cyfnod hwn ar draws y Fwrdeistref
7. Cadarnhad y bydd dyraniadau yn y dyfodol ar gael o Fawrth 2018

**YMATEB ODDI WRTH Y CYNGHORYDD L. PHIPPS, AELOD CABINET DROS GARTREFI A LLEOEDD**

**C1 Dyraniad ar gyfer pob Ward.**

O ganlyniad i benderfyniadau a wnaed yn y Cyngor Arbennig ar 25ain Chwefror 2015 mewn perthynas â chynigion cyllideb 2015/16 a strategaeth ariannol tymor canolig 2015/2018 ni dderbyniodd cyllideb refeniw'r Fforwm Ardal ddyraniad cyllideb ar gyfer 2017/2018. O ganlyniad i hyn, ar gyfer 2017/18 doedd dim dyraniad cyllid refeniw Fforwm i Wardiau.

Er bod nifer o Wardiau wedi defnyddio eu dyfarniadau cyllido blaenorol o gyllideb refeniw Fforwm yr Ardal yn llawn, mae nifer o Wardiau yn cynnal dyraniad cyllideb weddilliol sy'n deillio o danwariant yn eu dyfarniadau cyllido blaenorol. O'r 31ain Mawrth 2017, cyfanswm y tanwariant gweddilliol o gyllid y Fforwm Ardal oedd £70,498.72

**C2 Sut cafodd yr arian ei wario, a pha feini prawf a ddefnyddiwyd a gall prosiectau gael eu diffinio**

Hyd yn hyn yn 2017/18 mae gwariant ar brosiectau o fewn y Wardiau hynny gyda chyllid gweddilliol y Fforwm Ardal wedi bod fel y ganlyn:-

- Cefn Fforest – Atgyweirio Arhosfan Bws Trelyn Uchaf £2,454
- Dwyrain Rhisga – Gosod Panel Solar Ysgolion £4,396.50
- Pen-yr-heol – Gosod Panel Solar Ysgolion £10,000
- Tŷ Sign – Gosod Panel Solar Ysgolion £3,582.50
- Trinant – Gosod Panel Solar Ysgolion £1,885

Cyfanswm gwariant cyllideb y Fforwm Ardal 2017/18 hyd yma = £22,318

Yn ychwanegol at yr uchod o fewn Wardiau gyda dyraniad cyllideb gweddilliol y Fforwm Ardal mae yna ymrwymiadau parhaus i nifer o brosiectau sydd ar waith i'w gweithredu'n llawn a'u talu. Cyfanswm amcangyfrifedig cyllid y Fforwm Ardal a nodwyd i gefnogi prosiectau a ymrwymwyd yn flaenorol yw £14,423.31

Ar hyn o bryd mae cyllideb weddilliol heb ei chlustnodi'r Fforwm Ardal yn cyfateb i £33,757.41, sy'n cynnwys £29,345.25 o ddyraniad cyllideb flaenorol i Wardiau penodol a £4,412.16 ychwanegol nad oedd wedi'i ddyrannu i Wardiau penodol yn flaenorol.

Does dim meini prawf penodol bod rhaid i brosiect sy'n ceisio am gyllid y Fforwm Ardal fodloni. Fodd bynnag, mae'r prosiectau a gyflwynwyd yn flaenorol wedi ceisio gweithredu gwelliannau amgylcheddol lleol er mwyn gwella ymddangosiad ardaloedd lleol ac annog mwy o gyfranogiad lleol er mwyn cyfrannu at ymdrechion i sicrhau datblygiad mwy cynaliadwy.

**C3 Gall Aelodau'r Ward gynnig am brosiectau sy'n buddio eu wardiau a'u preswylwyr.**

Yn yr ardaloedd hynny lle mae gan Ward gyllideb weddilliol y Fforwm Ardal o ddyraniadau cyllid blaenorol gall Aelodau'r Ward gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau i'r Grŵp Rheoli Canol Trefi/Partneriaeth Gymunedol berthnasol.

Lle mae Ward â dyraniad cyllid gweddilliol y Fforwm Ardal y tu allan i ardal y Grŵp Rheoli Canol Trefi/Partneriaeth Gymunedol, mae'n ofynnol i'r Aelodau Ward gyflwyno'u cynnig prosiect i Reolwr Adfywio Cymunedol y Cyngor i'w ystyried a'i gymeradwyo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol ar yr amod bod yr holl Aelodau Ward yn cytuno â'r cynnig.

**C4 A yw'r weithdrefn a'r cyllid a gytunwyd ar ôl trafodaeth gyda Phwyllgorau Rheoli Canol y Dref lle mae un yn bodoli, ac a oes unrhyw drafodaeth gyda Chynghorau Trefi.**

Fel y nodir uchod, mae cynigion yn cael eu hystyried gan Grwpiau Rheoli Canol Trefi (GRCT) pan maent yn cael eu cyflwyno o'r Wardiau hynny sy'n rhan o GRCT. Nid oes cysylltiad penodol â Chynghorau Tref ar gynigion prosiect ond mae'r GRCT yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Tref briodol.

**C5 Beth sy'n digwydd mewn Wardiau pan nad yw pwynt 4 yn gymwys.**

Lle mae Ward â dyraniad cyllid gweddilliol y Fforwm Ardal y tu allan i ardal y Grŵp Rheoli Canol Trefi/Partneriaeth Gymunedol, mae'n ofynnol i'r Aelodau Ward gyflwyno'u cynnig prosiect i Reolwr Adfywio Cymunedol y Cyngor i'w ystyried a'i gymeradwyo ar yr amod bod yr holl Aelodau Ward yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo yn unol â'r cynnig.

**C6 Diffinio unrhyw danwariant ar gyfer y cyfnod hwn ar draws y Fwrdeistref.**

Fel y nodwyd uchod, mae cyllideb weddilliol heb ei chlustnodi'r Fforwm Ardal ar hyn o bryd yn gyfanswm o £33,757.41, sy'n cynnwys £29,345.25 o ddyraniad cyllideb flaenorol i Wardiau penodol a 4,412.16 ychwanegol na ddyrannwyd yn flaenorol i Wardiau penodol.

**C7 Cadarnhad y bydd dyraniadau'r dyfodol ar gael o Fawrth 2018.**

Daeth y penderfyniadau a wnaed yn y Cyngor Arbennig ar 25ain Chwefror 2015 mewn perthynas â chynigion cyllideb 2015/16 a strategaeth ariannol tymor canolig 2015/2018 i ben i ddyfarnu dyraniadau cyllid refeniw blynyddol i gyllideb refeniw'r Fforwm Ardal.

Terfynwyd y cyfarfod am 5.22 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunir a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir 6ed Mawrth 2018, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

__________________________

MAER